



Gofynion Sustrans ar gyfer yr etholiadau lleol Cymraeg 2022

Gofynion manifesto Sustrans

Agoriad llygaid yw'r pandemig Covid-19 sydd wedi amlygu ac ehangu'r anghyfiawnder helaeth sy'n bodoli rhwng pobl a llefydd. Ar yr un adeg nid yw'r argyfwng hinsawdd wedi diflannu. Mae'n hollbwysig ein bod ni'n gweithredu ar frys i greu swyddi, diwallu ymrwymïadau sero net a gwella iechyd.

Trefi, dinasoedd a rhanbarthau bydd yng nghanol yr ymdrech i adeiladau'n ôl yn well. Llefydd iachach, tecach a thrafnidiaeth well bydd yn ategu adferiad y DU. Mae'n rhaid i ni weithredu nawr.

Dyma pam rydym yn galw ar lywodraeth leol i gyflenwi arweinyddiaeth uchelgeisiol, i sicrhau adferiad cynaliadwy sy'n deg i bob person yng Nghymru. Mae yna gyfle unigryw i ganolbwyntio ar gerdded, seiclo a gwasanaethau trafniadaeth gyhoeddus sy'n gwasanaethu defnyddwyr oll yn gyfiawn, i greu etifeddiaeth aruthrol ar gyfer cenedloedd y dyfodol a darparu Cymru Yfory, i Bawb.

Gofyniad 1 Symud rhwystrau oddi ar y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol.

Mae cynghorau ar draws Cymru wedi ymateb i bryderon pobl ynglŷn â beiciau modur a cherbydau anghyfreithlon eraill yn teithio ar balmantau a pharciau gan osod rhwystrau corfforol i'w atal. Ond mae'r eangderau rhwng y rhwystrau yma'n aml yn atal trafniadaeth ddilys – rhieni yn gwrthio pramiau, defnyddwyr cadeiriau olwyn a sgwteri symudedd, neu bobl ar feiciau neu dreiciau sy'n lletach na'r meintiau arferol.

Mae'r rhwystrau yn gwahaniaethu yn erbyn y bobl yma ac yn creu anghyfiawnderau sylweddol ymhlith pwy sy'n gallu defnyddio llefydd cyhoeddus. Bwriad Sustrans yw gwaredu neu ailgynllunio'r holl 16,000 o rwystrau sydd ar y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol ar draws y DU er mwyn ei wneud yn hygyrch i bawb, heb unrhyw rwystrdigaethau wedi' osod ar gyfer trafniadaeth barhaus erbyn 2040.

Eleni, cafodd 28 o rwystrau eu symud oddi ar y Daith Taf. Ymatebodd seiclwyr gorweddol lleol Amanda Harris gan ddweud:

“Mae'r gallu i fynd allan ac arfer ar ben fy hun, pan 'dw i moen, ar fy nhermau fy hun, heb fod yn ddibynnol ar unrhyw un arall yn gwbl amhrisiadwy.”

Mae 1,500 o rwystrau'n parhau i fodoli ar led Cymru. Gadewch i ni roi lle i bobl symud gan gydweithio i symud neu ailgynllunio rhwystrau cyfyngol o bob math.

Gofyniad 2 Creu trefi a dinasoedd sy'n blaenoriaethu pobl yn gyntaf gan wneud cymdogaethau 20-munud yn egwyddor canolog ym mhlannu lleol, trafnidiaeth, iechyd a pholisi economaidd.

Bydd hyn yn arwain at gymdogaethau cerddadwy efo mwy o wasanaethau ac amwynderau o fewn tro dychwel 20-munud o le mae pobl yn byw. Bydd rhwydweithiau deniadol beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus yn galluogi pobl i gyrraedd ardaloedd eraill. Mae cymdogaethau 20-munud yn cefnogi datblygu lleol, y strydoedd mawr, swyddi a'r economi lleol wrth leihau tlogi trafnidiaeth ac ynysiad.

Mae llawer ohonom wedi bod yn fyw yn llawer mwy lleol ers y cyfnod clo ac wedi elwa o fynediad i fannau gwyrdd, siopau a gwasanaethau eraill sydd ar ein trothwyau. Ond yn rhy aml mae pobl wedi'u hynysu. Dylai pawb gallu cyrraedd gwasanaethau angenrheidiol, mannau gwyrdd a chysylltu ag eraill, heb ots am ei gefndir demograffaid.

Mae 65% o oedolion y DU yn cytuno dylai pobl gallu diwallu eu hanghenion beunyddiol o fewn tro 20-munud o'u cartrefi.¹

Ond mae tystiolaeth yn awgrymu bod y rhan fwyaf o aneddiadau newydd ac estyniadau dinesig wedi'u lleoli a'u dylunio mewn ffyrdd sy'n gwaethygu dibyniaeth ar geir.²

Gan fabwysiadu'r syniad o gymdogaethau 20-munud yn eich cynlluniau lleol byddech yn cefnogi:

- cymundodau bywiog, iachus a llewyrchus sy'n denu dinasyddion
- mwy o deithiau ar draed, ar feiciau ac ar dtrafnidiaeth gyhoeddus oherwydd dyna yw'r dewis mwyaf amlwg a chyfleus
- pobl yn byw'n agos i'w weithle, siopau a'i adloniant; a phlant o fewn cyrraedd eu hysgolion gan gerdded, beicio neu ddefnyddio sgwteri
- y bobl fwyaf bregus yn ein cymdeithas yn gallu mynedu gwasanaethau angenrheidiol, gofal meddygol a mannau cymdeithasol yn hawdd.

Gofyniad 3 Sicrhau bod pob plentyn yng Nghymru'n cael mynediad i feic, a hyfforddiant beicio am ddim.

Mae beicio'n wych ar gyfer plant³:

- mae'n helpu nhw i gael y 60 munud argymelledig o ymarfer corff dyddiol
- mae athrawon yn adrodd bod plant sy'n cerdded a beicio i'r ysgol yn fwy bywiog a pharod i ddysgu na rheini sy'n cyrraedd gan gar
- mae'n hwyl a sbri, ac am lot o blant mae'n gallu teimlo'n lot fwy cyffrous na theithio gan gar
- gall beicio helpu plant i ddod i nabod eu hardal a theimlo'n rhan ohoni
- mae arferion teithio da sydd wedi' ddysgu'n ifanc yn para hyd oes
- mae beicwyr yn anadlu mewn llai o lygredd aer o draffig na gyrrwyr ceir.

Mae'n bwysig bod pob plentyn yn cael mynediad i feiciau, ac yn teimlo'n hyderus wrth yrru nhw, er mwyn iddynt elwa o'r manteision yma.

Mae beicio yn datblygu sgiliau ac yn cynyddu hyder plant ar yr hewl; ac wrth i blant cryfhau'r sgiliau sydd angen iddynt fod yn ddiogel, gallen nhw datblygu annibyniaeth, gan ddarganfod strategaethau a datrysiadau i'w helpu teithio.

Mae **63%** o bobl yng Nghymru'n cefnogi hyfforddiant beicio am ddim i blant ysgol.⁴

Dylai plant cael y cyfle i berchen ar feic, dysgu sut i'w ddefnyddio a chael y cyfle i'w ddefnyddio'n ddiogel ar eu ffordd i'r ysgol a nôl eto.

Gofyniad 4 Adeiladu llwybrau cerdded a beicio o ansawdd uchel ar gyfer pob tref a dinas, yn seiliedig ar ymatebion Mapio Rhwydwaith Teithio Llesol.

Y modd gorau i lwyddo wrth annog cerdded a beicio yw sicrhau bod ein hewlydd, strydoedd a mannau cyhoeddus yn cael eu blaenoriaethu fel llefydd ymhle gall pobl o bob oedran a gallu symud o gwmpas yn gyfleus, yn hyderus ac yn ddiogel heb gar.

Mae **75%** o breswylwyr yn ddinasoedd Bywyd Beicio ar draws y DU yn cefnogi cynyddu mannau ar gyfer cerdded a beicio ar y strydoedd mawr.⁵

Er mwyn cwblhau hyn bydd angen isadeiledd addas ar gyfer cerdded a beicio, gan gyflawni rhwydwaith o llwybrau safonol sy'n ymrwymo i'r pum egwyddor ganlynol:

- Diogelwch
- Uniongyrchedd
- Cydlynïad
- Cysur
- Atyniad

Gall llwybrau mewn llefydd da, wedi' seilio ar ymatebion Mapio Llwybrau Teithio Llesol, helpu i leihau annhegwch cymdeithasol gan gynyddu mynediad i swyddi, addysg a gwasanaethau, wrth wella iechyd a chynhwysiad cymdeithasol.

Cyfeirnodau

¹ www.sustrans.org.uk/media/6910/life-after-lockdown-briefing-paper-3-a-green-and-just-recovery.pdf

² www.transportfornewhomes.org.uk/the-project/transport-for-new-homes-report-2018/ and <https://www.transportfornewhomes.org.uk/the-project/garden-villages-and-garden-towns/>

³ The benefits of cycling for children and families, Sustrans, 2019.

⁴ <https://www.cyclinguk.org/press-release/63-people-wales-support-free-cycle-training-school-children-cycling-uk-survey-finds>

⁵ www.sustrans.org.uk/bike-life/